Fabian Tract No. 143.

# SOSIALAETH YNG NGOLEUNI'R BEIBL.

GAN

J. R. JONES

(CAERNARFON).

CYHOEDDEDIG GAN

Y FFABIAN SOCIETY.

PRIS CEINIOG.

LLUNDAIN:

I'W GAEL ODDIWRTH Y FFABIAN SOCIETY, 3 CLEMENT'S INN, W.C.

CHWEFROR 1909.

## FABIAN TRACTS IN WELSH.

No. 38.—Paham mae y Lluaws yn Dlawd? 1d. for 12; 1s. per 100.

No. 87.—Sosialaeth a Dysgeidiaeth Crist. Gan y Parch. JOHN CLIFFORD, M.A., D.D. 1d., or 9d. per dozen; postage ½d. or 2½d.

No. 141.—Sosialaeth a'r Eglwysi. 1d., or 9d. per dozen; postage ½d. or 2½d.

No. 143.—Sosialaeth yng Ngoleuni'r Beibl. 1d., or 9d. per dozen; postage ½d. or 2½d.

Socialism

BRITISH LIBRARY OF POLITICAL & ECONOMIC SCIENCE PAMPHLET COLLECTION
BP161511(143)

# Sosialaeth yng Ngoleuni'r Beibl.

Nid oes cysylltiad o gwbl, ym marn llawer, rhwng Beibl a Sosialaeth. Ac yn anffortunus, y mae y mudiad Sosialaidd diweddar wedi dechreu a thyfu ar wahan, ac, yn aml, yn wrthwynebol i sefydliadau Cristionogol. Yr oedd Robert Owen ei hun, sef y Cymro enwog o'r Drefnewydd, masnachwr mwyaf llwyddiannus ei oes a dechreuydd y mudiad a elwir erbyn hyn yn Sosialaeth, yn elyniaethus (prin y mae y gair yn rhy gryf) i holl ffurfiau crefydd. Felly ar y Cyfandir, yr oedd y Sosialwyr boreuol, yn edrych yn gilwgus ar y Cristionogion oedd yn rhoi pwys ar y byd arall ac yn anghofio hwn. Erbyn heddyw y mae y ddwyblaid yn eu deall eu gilydd yn well. Y mae Martha helbulus a thrafferthus Sosialaeth yn fwy heddychol â Mair. Camddeall y naill a wnaeth y llall. Anghofiodd Mair, sef crefydd y teimladau dwys, fod y nefoedd ym mhobman, ac felly yn y byd hwn; anghofiodd Martha nefoedd y tu hwnt i'r llen wrth geisio ei sicrhau yn y byd a'r bywyd hwn. Y mae yr hil ddynol fel yn ymrannu i'r ddau ddosbarth yma—y gweledydd a'r dyn ymarferol, dyn y delfryd a'r gwasanaethwr byrddau. Mor blentynnaidd yr ymddengys y breuddwydiwr i'r dyn ymarferol; mor ffol yw dwndwr y dyn ymarferol i'r breuddwydiwr hapus. Ond ni raid fod y pellder yma rhwng y ddwyblaid. Breuddwydiwr oedd Joseph, ac efe yn brif wladwr yr Aifft. Ac yn wir, y mae yn aml, er y dieithrwch, ryw hiraeth yn y naill am y llall. Edrydd M. Vandervelde am wledd a gynhelid ym mis Ebrill 1848 gan y Sosialiaid pan anrhydeddwyd y testynau canlynol: "I Grist, Tad Sosialaeth," "I ddyfodiad Duw ar y ddaear," "I'r Crist byw." Y mae M. Bernstein, y Sosialydd Almaenaidd, yn adrodd iddo ddigwydd yn aml iddo ef, pan mewn cymydogaeth yn darlithio, ddyfod o weithwyr ato ar y terfyn a'i sicrhau fod y cyfan a ddywedodd i'w weled yn y Beibl, ac y gallent ddangos yr adnodau iddo. Yn ein gwlad ninnau hefyd, bu Maurice a Kingsley yn ceisio cymodi Sosialaeth â Christionogaeth, ac y mae enwau Canon Scott Holland a Dr. Clifford ag eraill yn enwog yn y cyfeiriad yma heddyw. Tra y mae Sosialaeth yn dyfod yn fwy crefyddol, y mae pobl y capel, o'u hochr hwythau, yn dod i sylweddoli fwy fwy fod ganddynt ddyledswyddau fel dinasyddion yn y byd a'r bywyd hwn, ac er nad ydynt hyd yn hyn yn barod i gofleidio Sosialaeth, eto maent yn selog am welliantau Sosialaidd.

Gan fod hiraeth yn y naill adran am y llall, y mae yn rhaid fod rhywbeth yn gyffredin iddynt. Y mae y naill a'r llall yn ymofyn y bywyd perffaith, er mai un daearol a pherthynol i'r byd hwn yr ymchwilia Sosialaeth am dano. Chwilia am y Gymdeithas Berffaith. Canys yn y Gymdeithas ddynol a thrwyddi hi y mae dyn yn cyrraedd helaethrwydd bywyd: ar wahan i Gymdeithas, nid yw dyn ddim. Gofynnir yn aml, beth yw y dyn? A'r ateb a roddwn yw: Cymro, Sais,

Gwyddel, Methodist, Anibynnwr, Wesleyad, Bedyddiwr, Eglwyswr. Y byd y bo yn byw ynddo, dyna yw dyn. Os Cymro yw, y mae ganddo fyd o syniadau, delfrydau, gweithgarwch, hoffderau arbennig a nodweddiadol: dyna ei enw. Yn yr enw—ei fyd—y mae yn meddu bôd. Ac os yn enw Crist yr ymgynnull dau neu dri, y mae yntau yn eu canol a hwythau yn Gristionogion. Pan y mae Moses yn cychwyn at Pharaoh y mae yn gofyn am enw yr Arglwydd. Yr atebiad yw: Ydwyf yr Hwn Ydwyf. Yr oedd yr enw—y Bôd—mor anfeidrol fawr fel nad ellid defnyddio ansoddair gydag ef. Tuag at yr Ydwyf hwn y mae cyrchfa dyn. Y mae dyhead dyn yn ddwfn am yr Ydwyf hwn, am y Prydferthwch nad all ei amgyffred ond trwy ei deimlad a'i ffydd. Y mae yn sychedu am gymundeb â'r Perffaith, ac fel y mae yn ymestyn tuag ato y mae ei fôd yn ymagor i dderbyn mwy. I'r hyn y mae yn ei garu y mae dyn yn byw, ac i'r cyfryw ddelw yr ymdebyga. Ei fyd—ei enw—ei ymwybyddiaeth—y mae dyn yn ei garu, ac erddo y mae yn byw. Ond ymagor y mae terfyngylch ei fyd yn barhaus: y mae y Shecinah yn dryllio y temlau dynol.

Y mae Cristionogaeth a Sosialaeth yn ymestyn at Gymdeithas Berffaith—at Deyrnas Nefoedd. Gellir dweyd fod Cristionogaeth yn ymwneyd â Theyrnas uwch lawer nag y dyhea Sosialaeth am dani. Gall fod cymundeb yr enaid, teyrnasiad gras, teyrnasiad ysbrydol sydd yn anrhaethol uwch na dim a ellir ei gyfyngu o fewn terfynau Sosialaeth, ac nad oes ond i'r credinwyr fynedfa i hon a hynny trwy ail-enedigaeth. Gwir. Yn y bennod gyntaf o Efengyl Ioan, modd bynnag, darllenwn fod Crist, y Gair, yn "llewyrchu yn y tywyllwch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred." Ac eto yr oedd Ef yn "oleuni dynion," er nad oeddynt hwy yn amgyffred hynny. Y mae y Gair, gan hynny, yn y byd yn ogystal ag yn yr eglwys, yn nheyrnas natur a theyrnas gras, ym mywyd daearol y byd hwn yn ogystal ag ym mywyd ysbrydol crefydd. Nid oedd Ef yn llai yno am nad oedd y byd yn ei amgyffred. Pa mor wahanedig bynnag y byddo yr eglwys oddiwrth y byd, yr un yw Pen unoliaeth yr eglwys a Phen unoliaeth y byd hwn. Gall yr eglwys fod ar wahan i'r wladwriaeth ond nid yn ddiberthynas a hi; gan mai yr un yw Pen y ddau. Ymae gan yr eglwys, yn ddiau, ei bywyd cysegredig, cyfrin, mewn ymneilltuaeth o'r byd, ond y mae iddi hefyd ei bywyd fel dinesydd, ac nid all ei osgoi.

Cawn gyfeiriadau a chrybwylliadau trwy yr Ysgrythyr am "ddyfodiad y Cyfiawn." Ond y mae dyfodiad Crist yn golygu dyfodiad Teyrnas,—sefyllfa o gymdeithas brydferth a hapus. Yr oedd y "Graig ysbrydol," sef Crist, yn canlyn trwy daith yr anialwch. Ond yr oedd teml pob oes yn myned yn anigonol i amlygu y Dwyfol. Dymchwel a wnai teml ar ol teml.

Pan fyddo teml cenedl yn cael ei dymchwel a phan adeiledir un newydd, dyna yr adeg pan y mae yn dyfod i groesffordd yn ei hanes. Pan chwelir ei byd, yna y mae ei dydd prawf. Efallai mai rhyw elyn o'r tu allan fydd yr achos; neu ynte amlhâd y bobl a'u hymdaith mewn gwlad ddieithriol a chydnabyddiad a defodau ac arferion ac iaith a theithi meddwl estronol; neu efallai, mai rhyw ddarganfyddiad pwysig, megys darganfod y ffordd i argraphu,

darganfyddiad yr America, neu yr agerbeiriant. Yr amser honno y mae byd cenedl yn myned yn gymysglyd. Y mae yr hen arferion a rhodfeydd y tadau, sydd wedi eu cysegru gan amser a serch, yn cael eu gwyro hyd nes bo'nt yn anhramwyadwy. Y mae hiraeth am yr hen yn troi yn freuddwyd am y newydd. Pan dorrir llinynau anwyl cyswllt a'r dyddiau gynt, y mae oernad hiraethus yn myned trwy galon y genedl, ond trwy ei dagrau gwel brydferthwch y deml newydd. "Ond llawer," medd Ezra, "o'r Offeiriaid a'r Lefiaid a'r pennau Cenedl, y rhai oedd hen ac a welsant y tŷ (sef y Deml) gyntaf, wrth sylfaenu y tŷ hwn yn eu golwg a wylasant a llef uchel; a llawer oedd yn dyrchafu llef mewn bloedd gorfoledd: fel nad oedd y bobl yn adnabod sain bloedd y llawenydd oddiwrth sain wylofain y bobl: canys y bobl oedd yn bloeddio a bloedd fawr, a'r swn a glywid ym mhell." Y mae amseroedd fel hyn yn amseroedd dymchweliad ag adeiladu. O amgylch gwely angeu yr hyn a fu, y mae angylion prydferth y dyfodol yn hofran. Dyma yr amseroedd i "orffwys o olwg yr Arglwydd"; "amseroedd adferiad pob peth"; blwyddyn y Jubili; "a'ch meibion chwi a'ch merched a brophwydant, a'ch gwyr ieuainc a welant weledigaethau, a'ch henafgwyr a freuddwydiant freuddwydion." Dyddiau fel hyn yw gwanwyn bywyd cenedl. Dyddiau ydynt pan dynnir i fyny y cortynau, ac y symudir y babell ac yr â daith diwrnod, a chwmwl niwl y dydd a thân y nos yn ei harwain. Unwaith a thrachefn yr adeiledir teml i'r Arglwydd, i fynegi mewn rhyw ffurf fechan amherffaith y Presenoldeb, y Shecinah, ag sydd yn trigo ynddi.

Cyfnod anghyffredin iawn yn hanes y byd yw yr oes yr ydym ni yn byw ynddi: oes y chwalu a'r adeiladu yw. Y mae nifer fechan yn fyw heddyw sydd yn cofio nain yn nyddu gyda'i throell, yn cofio y brethyn cartref, y gannwyll frwyn, y tân mawn, a'r tŷ tô gwellt. Erbyn hyn, y mae y trên, y stemar, y car modur, y peiriannau mawr rhyfeddol i nyddu ag i wneud pobpeth bron, wedi ymlid yr oes honno dros derfynau amser. Y mae y bwthyn yng nghanol y wlad, lle y gellid byw yn anibynnol, trwy godi ŷd, ei falu yn y felin gyfagos a gwneud dillad gyda gwlan y defaid oedd yn pori gerllaw, wedi myned yn amhosibl. Rhaid mynd i ganlyn yr oes—oes y gweithdai a'r ffatrioedd mawrion. Yn y Canol Oesau yr oedd y bywyd cymdeithasol yn myned ym mlaen yn drefnus a rheolaidd a rhwymau moesol yn cadw dynion mewn trefn. Ystyrid y dyn a brynai nwyddau er mwyn eu gwerthu drachefn am fwy o bris, yn gnaf. Dyna'r ffasiwn heddyw. Yn nhawelwch syml, ond hamddenol, y Canol Oesau, deffrodd y Diwygiad Protestanaidd feddwl Ewrob gyda'r canlyniad i ddynion wneud ymchwiliadau i natur a darganfod pethau rhyfedd a gwneud dyfeisiau cywrain. Drylliodd y byd newydd yma yr hen deml y preswyliai dynoliaeth yn dawel ynddi. Aeth yn gymysgfa cymdeithasol. Ac er hynny, y mae dynion da a thosturiol, dynion fel Robert Owen a offrymodd ei oes i wneud daioni, wedi ceisio dadrys y ddyrysfa gymdeithasol, a gosod bywyd dyn unwaith eto ar reilffyrdd cyfiawnder a thrugaredd. Canlyniad y dull newydd o nyddu ac o wneyd pob nwyddau mewn ffatrioedd mawr a chyda pheiriannau erfawr oedd, ac yw eto, fod y

moddion, neu y cyfrwng, i wneyd bywioliaeth wedi myned o law y lliaws i ddwylaw yr ychydig, ac nad all y lliaws, yn awr, gael y fraint o wneud diwrnod o waith heb dalu teyrnged i'r ychydig sydd yn meddiannu y tir a'r gweithdy. Am hynny y mae lliaws allan o waith yn barhaus. Bu llawer o ddadleu ac ymchwilio cyn cael gwelediad eglur. Ond ryw ddiwrnod gosododd Adam Smith garreg gyntaf sylfeini y deml newydd, trwy gyhoeddi i'r byd mai Llafur yw sylfaen gwerth a chyfoeth. Cyn hyn treiglai cyfoeth o law i law, gan mwyaf, trwy goncwest ac aeriaeth. Ond wele yr oes newydd yn dod i'r golwg, a'r Gweithiwr yn ymddangos fel Arglwydd y Greadigaeth. Nid trefniant dynol wedi ei weu ynghyd a'i roddi mewn gweithrediad yw hon, ond darganfyddiad o ddeddf hanfodol a thragwyddol pethau, sef yw hynny, mai Llafur yw ffynonell gwerth a chyfoeth. Karl Marx ac Engels, dau Iddew Almaenaidd, a ddangosodd y modd yr aeth y gweithiwr i gaethiwed trefn y peiriannau mawr, hwy a ddangosodd ffordd yr ymwared. Gellir gosod allwedd y rhyddhad ger bron yng ngeiriau canlynol Mr. Keir Hardie, A.S. :

"Amcan y trefniant cymdeithasol Sosialaidd yw gwneud meddiant y tir a chyfalaf gweithfaol yn eiddo cyfundebol, ac i beidio a chynhyrchu er mwyn elw y Tirfeddiannydd a'r Cyfalafwr a dechreu cynhyrchu er mwyn angen y cyfundeb."

Cawn wedd arall ar y mater yn y geiriau canlynol o eiddo Mr. J. Ramsay MacDonald, A.S. :

"Y mae cenhedlaetholi y weithred o gynhyrchu nwyddau yn llawn mor anghenrheidiol i Weriniaeth—ac yn wir yn llawn mor ddiatal os yw y Werin i aeddfedu i lawnder ei bywyd—ag oedd cenhedlaetholi yr awdurdod brenhinol trwy ddarostwng ewyllys a hawl bersonol brenhinoedd i les y cyhoedd. Dylid edrych ar y weithred o gynhyrchu nwyddau fel swydd a dyledswydd genhedlaethol, ac nid fel gorchwyl wedi ei ymddiried i ddosbarth neilltuol i weithredu yn ol eu hunan les a'u mympwy eu hunain."

Ag edrych arni yn y wedd hon, y mae Sosialaeth yn ddatblygiad o Ryddfrydiaeth. Drachefn, ysgrifenna Dr. Menger fel a ganlyn :

"Nôd arbennig y mudiad cymdeithasol (Sosialaidd) yw fod hawliau eiddo yn cael eu trosglwyddo o feddiant yr unigol i gylch cyfundebol mwy neu lai. Dyma yr hyn sydd yn gwahaniaethu Sosialaeth oddiwrth ymdrechion y pleidiau diwygiadol, y rhai sydd yn unig yn dymuno gwella y drefn bresenol tra yn gadael i'w hegwyddorion aros yr un."

Ond nid oes a wnelo Sosialaeth, ac ni fwriada gyffwrdd, ag eiddo personol yn ystyr lythrennol y gair. Y mae yn bwysig cadw mewn cof y gwahaniaeth yma rhwng y ddau fath o eiddo. Cyfrwng yw y tir a chyfalaf i wneud eiddo personol. A'r eiddo cyntaf (sef tir a chyfalaf) y mae a wnelo Sosialaeth yn unig. A phriodol hynny ; y mae y tir yn aros o genhedlaeth i genhedlaeth ac y mae cyfalaf yn gynnyrch cyd-weithrediad dynoliaeth. Arwyddair Sosialaeth yw : Eiddo'r bobl i'r bobl ac eiddo personol y dyn unigol i'r dyn unigol. "Y ddaear a roddes Efe i feibion dynion"—nid i bersonau unigol ac nid i un genhedlaeth.

Cyfeirir yn y Beibl at ddau Gaethiwed—sef Caethiwed yr Aifft a Chaethiwed Babilon. Gellid ychwanegu gorthrwm y Rhufeiniaid yn amser Crist. Yr oedd y cyfnodau hyn yn tori ar unoliaeth a dedwyddwch bywyd cenhedlaethol yr Iddew.

Patriarchaidd oedd ffurf cymdeithas yn yr amser boreuol. Byddai mintai pob patriarch yn trin y tir ac yn bugeilio defaid a mwynheid holl gynhyrch y llafur yn gyffredin. Nid oedd eiddo ganddynt ond tlysau ac addurniadau personol. Casglent oll o gylch y Penteulu, gan fod serch a pherthynas deuluol yn eu cydio yn un. Perthynai i'r tylwyth gaethweision, o ryw fath, a charient fasnach ymlaen trwy gyfrwng teithwyr, fel y marchnadwyr o Midian i'r rhai y gwerthwyd Joseph. Y mae yn amlwg fod newyn yn beth cyffredin. Yn nhawelwch y bywyd syml, patriarchaidd, y mae y breuddwydiwr yn cael ei eni. Arweiniodd amgylchiadau ef i'r Aifft ac aeth y genedl Hebreig yno ar ei ol. Fel ei llywodraethwr prynodd Joseph holl dir yr Aifftiaid, ag eithrio rhan yr offeiriaid, a rhoddodd had iddynt i hau y tir, dan yr amod eu bod hwythau i roddi y bumed ran o'r cnwd i Pharaoh. Dyma yn ddiau yr engraifft gyntaf o drethu tir, ac yn ein dyddiau ni y mae Henry George o'r America wedi bod yn cymell cynllun tebyg o dan yr enw *Single tax*. Ymddengys y weithred yma o brynu holl dir yr Aifft i Pharaoh, o herwydd bod y newyn wedi cryfhau ar yr Aifftiaid, yn un feiddgar, ar un olwg, ond nid oes cymaint o son am newyn ar ol dyddiau Joseph. Diau fod yr ail-drefniad a wnaeth yn anghenrheidiol iawn i'r byd ar y pryd. Ond y mae cam ymlaen yn hanes dynoliaeth megys yn agor ar anhawsderau newyddion. Yr oedd y bywyd patriarchaidd wedi ei lyngcu i fyny yn y drefn-lywodraeth freninol. Ac eto erbyn dyddiau Moses, brenin yr Aifft oedd cyfrwng y caethiwed. Ymddengys fel pe tae rhyddid un oes yn arwain i gaethiwed yr oes a ganlyn, hoenusrwydd ffydd yn y weledigaeth yn rhoddi lle i fusgrellni a phylni natur yn ceisio gorffwys. Rhaid ail gynneu tân yr allorau er cychwyn unwaith eto am daith diwrnod.

Arwydd da yw fod cenedl yn sylweddoli ei chaethiwed, fod y llyffetheiriau yn myned fwy fwy o boen iddi. "A phlant Israel a ucheneidiasant oblegyd y caethiwed ac a waeddasant" (Ex. ii. 23). Nid ydym yn cael llawer o fanylion yn ei gylch; yn yr oesau boreuol y mae hanesiaeth yn cael ei gyfleu yn fwy fel darlun cyfan na chyfres manwl o ffeithiau, fel y mae ein harfer ni. Ni wyddom a oedd cysylltiad "naturiol" (ac arfer iaith yr oes hon) rhwng y caethiwed a'r plaau. A oedd gorweithio y bobl, hanner eu newynnu, eu crynhoi i ystafelloedd bychain, di-awyr, budr, afiach yn arwain yn anocheladwy, yn ol deddfau iechyd y Creawdwr ei hun, i'r plaau hyn? Sicr yw fod Duw bob amser yn gweithredu trwy ei ddeddfau yn ei greadigaeth. Pwnc y Sabbath oedd yr anghydfod rhwng Moses a Pharaoh, sef cael myned i gadw gwyl i'r Arglwydd yn yr anialwch. Llawforwyn yr enaid yw gwaith, nid ei theyrn. Rhoddwyd y gallu i lafurio i ddyn er mwyn bywyd, a helaethrwydd bywyd, ac nid bywyd er mwyn gwaith. Gan hynny, dylai y gweithiwr gael ffrwyth ei lafur er digoni ei gorff, fel y gall ei enaid gael hamdden i gadw gwyl—Sabbath—i'r Arglwydd. Ond ni ddeallai Pharaoh hyn.

"Segur, segur, ydych," meddai. Canlyniad y drwg-feddwl yma oedd trymhau y caethiwed. Rhaid oedd iddynt chwilio am y gwellt eu hunain. Mor debyg ydym ninnau. Dywedwn wrth y rhai diwaith, "Diog, diog, ydych," a disgwyliwn i'r gweithiwr, nid yn unig fod yn feistr ar ei grefft, ond meddu dewiniaeth i wybod pa le y mae gwaith i'w gael. Amlwg yw fod Pharaoh mewn penbleth beth i'w wneud, rhwng gofynion trymach a thrymach ei lywodraeth a gwrthryfel ei gaethion. Cwynai fod y boblogaeth yn cynhyddu, eto yr oedd cyfoeth dirfawr yn yr Aifft, canys yspeiliwyd y bobl gan yr Israeliaid wrth ymadael. Diau fod cyfoeth yn yr oes honno, fel yn ein dyddiau ni, wedi myned yn wychder gwag ac yn gynhwysedig mewn hawl dyn ar ddyn, yn hytrach na lliosowgrwydd pethau anghenrheidiol a defnyddiol. Arwydd oedd y gwychder a mawredd y cyfoeth o ddyfnder caethiwed Israel. Mwyaf y cyfoeth, mwyaf y beichiau afraid. Yr oedd gwaith wedi myned yn "ewyllys gwr," yn hytrach nag ewyllys Duw, balchder wedi esgyn i'r orsedd, a'r hyn a elwid golud yn dyblu ac yn treblu fel nad allai Pharaoh roddi gwyl neu Sabbath i Israel. Llafur y bobl oedd yn cynnal ei orsedd.

Suddasai cri ei frodyr yn ddwfn i galon Moses. Pan yn ieuanc aeth allan o blasdy Pharaoh i ymweled a hwy. Gwelodd Eifftwr yn taro Hebrewr ac yn nhanbeidrwydd ei ysbryd cenedlgarol lladdodd ef. Modd bynnag, creu ofn ynddo a wnaeth y weithred hon, a ffodd i dir Midian. Ni wyddom fawr pa beth a ddigwyddodd yno. Ni wyddom pa mor ddyfal a dwfn y myfyriai Moses ar gyflwr ei bobl. Nid allwn olrhein y cymundeb yn yr hwn y dyfal chwiliai Moses ag y datguddiai Duw. Ond daeth yn ol i wynebu Pharaoh fel un wedi ymwroli. Yn nyfnder ing ei bobl gwelodd waredigaeth Duw. Hoffus yw meddwl iddo gael cipdrem ar arucheledd y Ddeddf Foesol yng nghanol unigedd mynyddig tir Midian. Cafodd ddatguddiad goruchel. Gwelodd mai "Na ladd" yw gorchymyn hanfodol bywyd cenedl. Gwelodd mai nid rhywbeth o drefniad dynol yn unig yw cenedl, ond fod iddi ei gwraidd a'i chyswllt yn yr Anfeidrol. Dyn llariaidd yw Moses bellach. Gwir mai o fewn cylch cenedl Israel yn unig y cyfyngid y gwirionedd hwn. Lleddid y Canaaneaid a gellid gwneud caethwas o aelodau cenedl arall; ond yr oedd Israel ei hun yn bobl etholedig yr Arglwydd.

Ni raid penderfynu pa un ai athrylith gynhenid Moses fel gwladweinydd o'r mwyaf a welodd y byd, ai ynte datguddiad uniongyrchol yr Arglwydd fu yr achos iddo adeiladu yr Hebreaid yn genedl y fwyaf nodedig ymysg cenhedloedd y ddaear. Beth bynnag oedd gallu Moses, yr oedd Jehofah yn ffynhonnell ei nerth. Ond y mae cwrs o fantais ymarferol mewn edrych o safle ddynol ar y pethau hyn. Pa un bynnag ai fel proffwyd dynol yn ymarfer ei ddoethineb, ai ynte fel cenad a chyfrwng, sicr yw i'r genedl Iddewig trwyddo gael ei sylfaenu ar egwyddorion a deddfau tragwyddol. Dygodd iddi y fath unoliaeth amcan ac unoliaeth gweithrediad fel ag i wneud i'r genedl bron feddu personoliaeth unigol. Hyd heddyw erys ar ei phen ei hun. Gadawodd caethiwed yr Aifft hefyd argraff ddofn arni. Cyfunodd yn ei chymeriad gadernid a thynerwch, drugaredd a barn.

Yn ei gwedd genhedlaethol golyga Sosialaeth feddiant a chydweithrediad cenhedlaethol; defnyddiad a rheolaeth genhedlaethol. Y tir, yn hytrach na chyfalaf, oedd moddion a chyfrwng cyfoeth yn yr amserau boreuol. Nid oedd cyfalaf yn bod eto. Y mae deddfau tir Moses yn llawn cyfiawnder a thrugaredd. Cymhwysodd y gorchymyn "Na ladd" at amrywiol amgylchiadau bywyd y genedl. Y mae modd lladd ein brawd trwy rent, llog a phroffit. Gan hynny, nid oedd i'r Iddew feddiant personol yn y tir. Gwir y gellid ei werthu o fewn terfynau. Ond yn ol esboniad yr Iesu, caledrwydd calon y genedl oedd y rheswm nad allai Moses wneud ei ddeddfau yn fwy perffaith, sef eu diffyg o ymwybyddiaeth byw cymdeithasol. Yn Lefiticus xxv. 23, dywedir: "A'r tir ni cheir ei werthu yn llwyr ('am byth' yn ol y Saesneg); canys eiddof fi yw y tir." Duw oedd biau y tir ac nid dyn, ac fel pobl yr Arglwydd perthynai y tir i'r genedl fel cyfundeb. Sefydlwyd trefniad y Jubili. Os gwerthai Iddew ei etifeddiaeth elai y tir yn ol iddo ar derfyn yr haner can mlynedd er i'r wystl fod heb ei chlirio. Dyma engraifft ymarferol o faddeu dyledion, fel y dysg Crist ni yng ngweddi yr Arglwydd; dyma roddi ail gynnyg i'r dyn i ddod yn ol i safle cydradd a'i frodyr. Yr ystyr yw fod meddiant o'r tir i fod yn ddarostyngedig i les y genedl fel cyfangorff. Nid allai yr Iddew wneud caethwas o'i frodyr, er y gallai o rai o genhedloedd eraill. Os rhoddai fenthyg, nid allai ofyn am log diderfyn. Nid oedd iddo ryddid cytundeb. Yn hytrach ym mhob cytundeb yr oedd Jehofah, fel Duw Israel, yn bresenol. Cytundeb oedd rhwng pobl yr Arglwydd â phobl yr Arglwydd, ac, am hynny, o dan delerau hanfodol cyfiawnder a'r drugaredd sydd yn parhau yn dragywydd. Nid oedd rhent, llog a phroffit, sef trais cymdeithasol, ond pethau i'w goddef o fewn terfynau, caeth a chyfyng iawn. Canys nid casgliad o bobl, a phawb yn ymladd am ei fywyd ei hun, nid Ismael oedd Israel, ond cenedl i'r Arglwydd, cenedl wedi ei dwyn i fod nid trwy "ewyllys gwr," ond creêdig gan Dduw, yn sylfaenedig ar yr egwyddorion tragwyddol ar y rhai y saif y greadigaeth ei hun—cyfiawnder a thrugaredd.

Nid haid o bobl oedd Israel, ond cenedl. Dywedir wrthym fod yr Hebreaid wedi tarddu o Abraham. Fel yr oedd teuluoedd y Patriarchiaid yn cynhyddu rhaid oedd cael o hyd i ryw egwyddor neu gynllun bôd, cydymffurfiad â'r hwn oedd yn rhoddi llawnder bywyd i'r llwyth ag i'r personau unigol. Cafodd Israel hwn yn ei hymwybyddiaeth o Dduw fel deddfroddwr. Trwy ufuddhau i gyfamod Duw, yr oedd y person unigol, nid yn unig yn byw ei fywyd ei hun yn llawnder ei bosibilrwydd, ond yr oedd hefyd yn byw bywyd ei genedl. Yr oedd yr Iddew yn berson unigol ac yn genedl; ar yr un foment, yn cynrychioli un a lliaws; o'i lwynau ef y tarddai y genedl. Nid allai yr Iddew fyw ei fywyd ei hun heb fyw bywyd ei genedl. Gallwn trwy hyn ddirnad i ryw raddau riddfaniad torcalonus yr Iddew am Jerusalem wrth afonydd Babilon: "Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu" (Ps. cxxxvii. 5). Ynddo ef yr oedd y genedl yn bod ac ynddi hithau yr oedd yntau yn byw; hebddi collai ei hunaniaeth, collai adnabod arno ei hun. Yr oedd eiddo, neu unrhyw beth personol, unigol, yn

annealladwy iddo. Yr un undeb ag sydd yn sylfaen y dyn unigol sydd hefyd yn sylfaen cymdeithas. Yr ymwybyddiaeth o Dduw yw y sylfaen honno. Cariad yw y berth sydd yn llosgi heb ei difa; yw ffynhonnell pob bôd. Cariad yw rhwymyn bodolaeth y dyn unigol ynddo ei hun ac fel y mae yng nghymdeithas. Duw yw y cariad hwnnw. Ni feiddiai yr Iddew ddiorseddu Jehofah fel yr amlygid ef yn llawnder bôd cymdeithasol-bersonol ei frawd. Os lladdai ei frawd yr oedd yn lladd Jehofah yn ei ymwybyddiaeth bersonol a chenhedlaethol, a'r tywyllwch eithaf oedd bywyd iddo. Nid oedd ei gariad priodasol na chaeth na rhydd, ni tharddai o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, ond o Dduw—hanfod pob cariad. Yr oedd holl fodolaeth Israel yn ewyllys Duw, canys ei etholedig bobl Ef ydoedd.

Y mae y ddelfryd yn aruchel. Mewn bywyd syml a chylch bychan nid yw mor anhawdd ei chyrraedd, ond fel yr ymeanga y teulu yn llwythau a'r llwythau yn genhedloedd, y mae yn fwy anhawdd dal golwg ar y weledigaeth, heb son am ei byw. Yn lle ymgodi i fyw i'r undeb perffaith, y mae dyn yn ymollwng i fyw i'w hunan bychan, personol a defodol; a gwneud defnydd o eraill er ei hunan les. Ymdrecha wneud defnydd o'i gyd-ddynion i ffurfio llo aur iddo ei hun a chyfoethogi trwy lafur eraill. Y dull y gwneir hyn yw drwy rent, llog a phroffit. Dyma y moddion drwy y rhai y darostwng dyn genedl ac aelodau o genedl i fod yn is-wasanaethgar i'w fantais ei hun, yn lle byw yn a thrwy ei genedl i'r daioni uchaf.

Ar ol taith weddol dawel a hamddenol yr anialwch, cawn Israel yn dechreu ar yrfa helbulus, gythryblus; yn aml o dan draed ei gelynion ac ambell dro, fel yn amser Dafydd a Solomon, yn ddisglair a llwyddiannus. Yr oedd dylanwad y cenhedloedd cylchynol, eu rhyfeloedd a'u cytundebau â hwy, yn peri iddynt yn aml wyro o lwybrau y tadau. Yn yr ystormydd cymdeithasol hyn, malurid llawer ar unoliaeth y genedl ac elai y naill i wneud trais a'r llall. Ychwanegid maes at faes fel nad oedd lle i eraill fyw, a thŷ at dŷ. Yr oedd aelodau o'r genedl wedi anghofio Duw ac yn chwilio am gyfoeth, ac yn gorthrymu y tlawd ac yn diystyru yr anghenog. Pan fyddo cwlwm cymdeithas yn datod yna try pawb i geisio elw iddo ei hun, megys pan ddatodir y rhwymyn sydd yn gwneud y corff dynol yn fyw, yr â pob rhan yn fywyd yn pydru. Y mae y prophwydi yn gweiddi fod bodolaeth y genedl mewn perygl. Weithiau y maent yn fflangellu y genedl, dro arall yn llawn galar, ac ar brydiau yn codi i gysuro ac i ymorfoleddu mewn gobaith. "Pa wedd," medd Isaiah, "yr aeth y ddinas ffyddlawn yn butain (hynny yw, yn anffyddlawn)! cyfiawn fu o farn: lletyodd cyfiawnder ynddi; ond yr awrhon lleiddiaid. . . . Dy dywysogion sydd gyndyn, ac yn gyfranogion â lladron; pob un yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau: ni farnant yr amddifad, a chwyn y weddw ni chaiff ddyfod attynt." Dyna ddinas "lleiddiaid." Y mae Nehemiah yn dywedyd iddo ddwrdio y pendefigion a'r swyddogion am eu bod "yn cymeryd ocraeth (sef llog) bob un gan ei frawd"; cymerent eu meusydd, eu tai, a'u gwinllanoedd yn wystl. Yr oedd gweiddi mawr gan y bobl a'u gwragedd yn erbyn hyn. "Ein cnawd ni sydd fel cnawd ein

brodyr, ein plant ni fel eu plant hwy," a pha ham yr oedd raid eu darostwng yn gaethion trwy gymeryd eu tir yn wystl? Yr oedd hyn yn lladd y genedl. Gwelai Isaiah mai Rhyfeloedd oedd wrth wraidd y drwg. Y mae yn cymeryd i fyny ddrychfeddwl Moses ac yn cyhoeddi, "Na ladd." Heddwch! Heddwch yw ei orfoleddus gân. Drachefn a thrachefn â yn ol ati. Chwery ar bob cord yr anthemn ogoneddus hon: "A gwaith cyfiawnder fydd heddwch; ie, gweithred cyfiawnder fydd llonyddwch a diogelwch hyd byth." "A'm pobl a drig mewn preswylfa heddychlawn ac mewn aneddau diogel ac mewn gorffwysfaoedd llonydd." Yn sicr, yn llenyddiaeth y byd ni fu y fath felodedd i Ddwyfol Heddwch. "Canys bydd dy heddwch fel yr afon a'th gyfiawnder fel tonnau y mor." "A hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau a'u gwaywffyn yn bladuriau; ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl ac ni ddysgant ryfel mwyach." Ar draws y canrifoedd y mae cân Isaiah fel swn mwyn seraffiaid yn y cymylau yn cyhoeddi: "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw ac ar y ddaear tangnefedd, heddwch, i ddynion ewyllys da." Pwy all ddal y cledd tra yn gwrando y carolau hyn? Y mae y fraich yn myned yn ddiffrwyth, y llygaid yn llonyddu a'r gliniau yn plygu ac arfau rhyfel yn disgyn i'r llawr. Â rhyfel yn amhosibl. Pa fodd y gallaf fi ladd fy mrawd? Onid fy mrawd ydyw ef? Y mae pob cenedlgarwch hunanol, gul, jingoaidd yn diflannu, canys rhaid i'r genedl fel i'r unigol gael o hyd i lawnder ei bywyd ym mywyd dynoliaeth. Trwy ryw reddf naturiol y mae y Sosialwyr yn gryf o blaid heddwch. Hwy sydd wedi codi adenydd Angel Heddwch i fyny trwy Eurob ac, yn wir, trwy'r byd nes gorfodi y penaethiaid i gyfarfod yn yr Hague i gymeryd arnynt, beth bynnag, fod o blaid Heddwch. Ond Isaiah sydd yn parhau yn arweinydd y gân. Ei swyn ef sydd trwy y byd yn pylu min y cledd, yn dofi llid cenhedloedd. Fe welodd ef nad oedd modd cyfyngu y Shecinah i derfyngylch Israel. Yr oedd yn rhaid tori i lawr bob rhagfur rhwng cenedl a chenedl: "dy byrth a fyddant yn agored yn wastad, ni cheuir hwynt na dydd na nos." "Canys y gyfraith a â allan o Sion a gair yr Arglwydd o Jerusalem"—sef y cyfiawnder tragwyddol oedd ynghlo o fewn terfyngylch cenedl Israel—y cynllun o'r Gymdeithas Berffaith tuag at yr hon yr ymdeithia yr holl greadigaeth—Dinas Cyfiawnder. "Cyfod," medd Isaiah, a'i holl enaid yn dygyfor mewn cân, "cyfod, llewyrcha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat." "Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy dyfodiad." "Dring rhagot, yr Efengyles Sion, i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O Efengyles Jerusalem: dyrchafa, nac ofna, dywed. . . . Wele eich Duw chwi." Prin y gallwn ni sylweddoli priodoldeb yr ymadrodd diweddaf i'r Iddew. Ei Dduw oedd ei fodolaeth cenhedlaethol iddo ef. Heb ei Dduw a'i Dduw-lywodraeth (Theocracy) nid oedd bywyd ond anialwch gwag iddo. "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn . . . cyhoeddi . . . Heddwch . . . yn dywedyd wrth Sion, Dy Dduw di sydd yn teyrnasu." "Pob câd y rhyfelwr sydd mewn trwst," ond "Bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef" (fel bachgen, nid fel rhyfelwr) ac Efe fydd Tywysog

Heddwch . . . "ar helaethrwydd Ei lywodraeth a'i dangnefedd (heddwch) ni bydd diwedd." Y mae megys anthemn agoriadol i Deml Heddwch Unol Dalaethau y byd. "Pob pant a gyfodir . . . a gogoniant (sef teyrnas, cynllun cymdeithas) yr Arglwydd a ddatguddir a phob cnawd ynghyd a'i gwel . . . yr Arglwydd Dduw a ddaw . . . a'i waith o'i flaen." Wele gyfundrefn concwest ac aeriaeth, rhyfel a'i drwst a'i hyllder anifeilaidd yn cilio o'r golwg a Theyrnas Gwaith yn ymagor gyda rhosynau'r wawr.

Yn ysbryd yr Heddwch yma a Theyrnas Llafur y mae Mab y Saer yn dod i'n byd. Cerubiaid Gwasanaeth a Heddwch oedd yn siglo Ei gryd. Efe yw Mab y Dyn. Y Brawd Hynaf yn Nheyrnas Dynoliaeth. "Gwnaf ddyn yn werthfawroccach nag aur coeth ; ie, dyn na chŷn o aur Ophir" (Is. xiii. 12). Nid aur bellach, ond dyn, yw safon bywyd.

Tra o'i amgylch yr ymdroediai balchder milwrol Rhufain, fawr, orgyfoethog, a'i llywodraeth o ddeddf, a gorfod a thrais, atebai yr Iesu yn syml iddi : "Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn"—sef yw hynny, y byd treisiol Rhufeinig oedd o'i amgylch. Canys corsen ysig nis torrai Ef, a llin yn mygu nis diffoddai. "Yr hwn pan ddifenwyd ni ddifenwodd drachefn ; pan ddioddefodd, ni fygythiodd." Nid trais, fel llywodraeth ddaearol oedd arddull ei Deyrnas Ef. Nid ceisio gorchfygu eraill a'u gorfodi i fod yn wasanaethyddion iddo oedd cynllun ei gymdeithas Ef. Ond yn hollol fel arall. I fod yn wasanaethwr y daeth Mab y Dyn. Felly ei ganlynwyr. Y mae y cenhedloedd yn arglwyddiaethu ar eu pobl, "a'r rhai sydd mewn awdurdod arnynt a elwir yn bendefigion. . . . Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi ; ond pwy bynnag a ewyllysio fod yn fawr yn eich plith . . . . bydded was i bawb." Gan nad yw yr Iesu yn pleidio llywodraeth dyn ar ddyn, y mae rhent, llog a phroffit yn perthyn i deyrnas hollol wahanol i'r eiddo Ef. Dyled a esyd un dyn ar ysgwyddau eraill yw rhent, llog a phroffit ; nid gwasanaeth i arall ydynt, ond mantais ar eraill. Dyna yw cyfoeth : un dyn yn manteisio ar arall. Am hynny, dymchwelodd yr Iesu fyrddau yr rhai oedd yn prynu ac yn gwerthu ; gan mai brwydr, un yn cymeryd mantais ar arall, ac nid gwasanaeth, gan mwyaf, yw masnach.

Heddwch, rhoddi arfau i lawr, yw porth y nefoedd Sosialaidd. Y mae ymddygiad yr Iesu tuag at awdurdod yn barchus a thawel ond tra yn dioddef nid yw yn cydymffurfio. Ni wrthwyneba drais â thrais. Iddo Ef hanfod y Gymdeithas Berffaith oedd cariad rhwng dyn a dyn. Gan hynny, carai ei elynion. Y mae yn diystyru cyfoeth, canys gwyn ei fyd y tlawd, ac eto, yr oedd y rhai addfwyn yn etifeddu y ddaear. Yr hyn oedd yn bwysig gan yr Iesu oedd y cyswllt cymdeithasol, sef ymddiried dyn mewn dyn ag oedd yn gwneud cynhyrchu cyfoeth yn bosibl. Anogai wneud cyfeillion, hyd y nod, o'r Mammon anghyfiawn. Dyma gynllun i orchfygu y byd trwy gyfeillgarwch. Yr oedd y goruchwyliwr anghyfiawn wedi bod yn ddigon call i ddeall dirgelwch y Deyrnas, canys cytunodd a'i wrthwynebwyr ar frys. Efengyl y Gyfeillach yw Teyrnas Nefoedd.

Rywfodd yr ydym wedi colli golwg ar y Deyrnas yng ngoleuni llachar y Person digymar sydd yn ben iddi. Ond i sefydlu Teyrnas

Nefoedd, a honno ar y ddaear, y daeth yr Iesu. Yn yr Efengylau y mae Ef yn cilio yn wylaidd o'r golwg, ac yn anghymeradwyo y neb sydd yn ei alw, "Arglwydd, Arglwydd," gan anghofio y Deyrnas. Cawn ym Marc xi. 10 fod y dyrfa oedd yn ei ddilyn pan yn marchogaeth i Jerusalem nid yn unig yn clodfori y Person, ond yn dywedyd: "Bendigedig yw y Deyrnas sydd yn dyfod yn enw Arglwydd ein tad Dafydd." Mewn damhegion tlws, cywrain ac arddunol cawn wahanol agweddau ar y Deyrnas yn cael eu darlunio. Yng ngweddi yr Arglwydd y mae yr erfyniad: "Deled dy Deyrnas." Ac yn canlyn y mae megys eglurhad arni: "Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd"; canys llawnder ymwybyddiaeth o Dduw yw Teyrnas Nefoedd. Y mae iddi yn ol natur ymwybyddiaeth, bosibilrwydd cynnydd diderfyn, megys yr had mwstard, yr hwn er y lleiaf o'r holl hadau sydd yn tyfu yn bren, fel y mae adar y nef yn dyfod ac yn nythu yn ei gangau ef. Drachefn, y mae pregethwr Teyrnas Nefoedd yn cyfarfod ag anhawsderau tebyg i'r hauwr. Y mae y gelyn ddyn hefyd yn brysur yn hau efrau. Yr oedd y Phariseaid "yn cau Teyrnas Nefoedd o flaen dynion," nid aent i mewn eu hunain ac ni adawent i eraill fyned i mewn. I ambell un yr oedd Teyrnas Nefoedd yn ddarganfyddiad gogoneddus, "megys trysor wedi ei guddio mewn maes" ac y mae yn rhoddi y cyfan o'i fywyd personol erddo. Y mae Teyrnas Nefoedd drachefn yn debyg i wledd briodas i'r hon y gwahoddir y drwg a'r da, ar yr unig amod eu bod yn cyd-ymffurfio a hyfrydwch y cyfan. Y mae yr Iesu yn barhaus yn rhoddi ei fys ar glwyf ei genedl, sef ei hyspryd anghymdeithasol oedd yn peri iddynt fod mor ynfyd a gwrthod llonder a llawenydd gwledd briodas, sef cydweithrediad ystwyth, llon. Cyffelyba y genedl i blant yn chwareu ac yn dweyd wrth eu cyfeillion: "Canasom bibell i chwi, ac ni ddawnsiasoch; canasom alarnad i chwi, ac ni chwynfanasoch." Nid ymunent yn galonnog yn y chwareu. Dengys ddiffyg ysbryd cymdeithasol, gyda'r canlyniad fod yna ddiffyg bodolaeth, fel cymdeithas, ond un sylfaenedig (os priodol y gair) ar gyfrif a mesur, pwyso a drwgdybio. Nodwedd arbennig dysgeidiaeth yr Iesu yw gwerth cymdeithas; cymdeithas yn gorff sydd yn rhoddi posibilrwydd llawnder bodolaeth i ddynion. Ac er dyddiau yr Iesu, nid oes dim wedi nodweddu y byd yn fwy na'r graddol gynnydd a amlyga dynoliaeth yn y gallu i gyd-gynnull a chyd-weithredu. Y mae nifer yr Associations ('Sassiynau) sydd yn bod heddyw yn afrifed, ac nid oes neb a wyr beth yw dyfodol a phosibilrwydd y cyd-weithrediad dynol. Teyrnas yw. Teyrnas Nefoedd ar y ddaear. Ymestyn y cydweithrediad nid at bethau ysbrydol a meddyliol yn unig, ond at holl fywyd dyn. Y mae "beth a fwytawn, beth a yfwn, â pha beth yr ymddilladwn?" yn rhan o honi, canys yn ol yr Iesu trwy Deyrnas Nefoedd y ceir hwynt. "Eithr yn gyntaf ceisiwch Deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef ar holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg." Dyma egwyddor y Ddwyfol-lywodraeth (Theocracy) Iddewig. Yn ei genedl y cai yr Iddew ei fywyd; ar wahan, syrthiai i ddiddymdra. Ei genedl oedd ei gartref, a'i fyd, ei ffon bara yn ogystal a'i fan cyfarfod; hebddi nid oedd ond alltud a chorff marw. Condemniai yr Iesu, gan hynny, y

bywyd personol a'r ymdrech am gyfoeth unigol. Ynfyd oedd y gwr goludog ac yn uffern y codai ei olwg. Yr oedd ymgecru ynghylch cyflog yn dangos fod y llygaid yn ddrwg. Dengys dameg y Llafurwyr mai yr un gyflog ddylai fod i bawb. Y cyflog hwnuw oedd ceiniog. Dyna oedd nid yn unig ewyllys benarglwyddiaethol y gwr o berchen tŷ, ond dyna oedd yn gyfiawn. Yr oedd llygaid y grwgnachwyr yn ddrwg am nad allent weled cyfiawnder o safle cymdeithas ; gwelent ef o safle'r unigol. Eithr nid yn ol gweithredoedd y tâl Duw nac y dylai dynion. Ac nid rhywbeth y gellir ei mesur a'i phwyso yw y geiniog. Y mae ffiniau eiddo yn diflannu i'r Iesu oedd yn gweled y tu draw i orwelau bychain gwyddonau dynol. Cariad yn gwasanaethu cariad yw economeg y Gymdeithas Berffaith. Nid oes yno gyfrif llafur, ond y geiniog—sef y cyfan—i bawb. Llefarwyd y ddameg mewn cysylltiad ag ymweliad y gwr ieuanc oedd yn berchen da lawer. Gofynai pa beth a wnai i gael bywyd tragwyddol. Atebodd yr Iesu ef i ddechreu yn y dull allanol. Yna daeth a hanfod y deddf foesol i'w gyfarfod a dywed mewn effaith : "Os wyt ti yn caru dy gymydog, dôs, gwerth yr hyn oll sydd genyt a dyro iddynt." Dywed y disgyblion eu bod hwy wedi gwneuthur hyn. Etyb yr Iesu eu bod i gael y can cymaint o dai a thiroedd yn y byd hwn am yr eiddo personol a roddasant heibio. Yr ystyr, yn diau, yw eu bod i gael yn gymdeithasol y cyfan a roddasant heibio yn bersonol, a mwy. Dyna yw y geiniog—y can cymaint, ac yr oedd pob un i gael yr un faint. Tybia rhai fod dameg y talentau yn dysgu gwahaniaeth rhwng tâl y naill weithiwr a'r llall. Ond benthyg oedd y talentau ac eiddo'r meistr oedd y llog. Ni chai y gweithwyr ond eu cynaliaeth. Cwyn y dyn un dalent oedd mai y meistr oedd yn cael y cyfan ac nad oedd obaith proffit bersonol iddo ef.

Elai yr Iesu ym mhellach na gwedd nacaol cyfraith Moses. Rhoddai le i wasanaeth bywiog : "Car dy gymydog." Y mae cymdeithas yn myned yn ystwyth a hylaw ; gwasanaeth a chydweithrediad yn ddawnsfa bleserus ; masnach yn myned yn brysurdeb angylion gwasanaethgar, a chyfoeth yn cael ei gludo ar eu hadenydd : Dyro i'r hwn a ofynno genyt ac na thro oddiwrth yr hwn sydd yn ewyllysio benthyca. Y mae yn beroriaeth engyl nef ; Teyrnas y perffaith ryddid, lle mae'r gwaith yn wasanaeth a'r cyflog yn gymundeb, lle nad oes gaeth na rhydd, tlawd na chyfoethog, prynu na gwerthu, canys tŷ cymdeithas, tŷ gweddi yw ; y mae yn gerddorfa soniarus, megys swn llawer o ddyfroedd, eto mewn perffaith gydgord, a pherffaith ryddid ; y naill yn gwneud i'r llall fel y dymuna dderbyn ei hun. Y mae hon yn baradwys y tu hwynt i obeithion Sosialwyr ein hoes ni, er fod eu hwynebau tuag ati. "Deled dy Deyrnas . . . megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd":

"Pan fo'r côr yn clodfori,
Cydlef llu nef oll a ni,
Ag ateb can yn gytun,
Daear a nef a dry'n un."

THE

# Fabian Socialist Series.

The first four volumes consist of a revised, collected, and classified edition of some of the most valuable "Fabian Tracts" in a style more suitable for the general reading public. Each booklet contains not less than 96 well-printed pages, good paper and good type, and is supplied in two forms, i.e., in attractive wrappers at **6d.** each, nett, and in quarter cloth boards, gilt top, at **1s.** each, nett. Postage: Nos 1. to 4, 1d. and 2d. each; No. 5, postage 1½d. and 2d.

I. SOCIALISM AND RELIGION. CONTENTS: (1) Christian Socialism, by the Rev. Stewart D. Headlam. (2) Socialism and Christianity, by the Rev. Percy Dearmer. (3) Socialism and the Teaching of Christ, by the Rev. John Clifford. (4) A Word of Remembrance and Caution to the Rich, by John Woolman, of the Society of Friends.

II. SOCIALISM AND AGRICULTURE. CONTENTS: (1) The Village and the Landlord, by Edward Carpenter. (2) State Aid to Agriculture, by T. S. Dymond. (3) The Secret of Rural Depopulation, by Lieut.-Col. D. C. Pedder. (4) The Revival of Agriculture, by the Fabian Society.

III. SOCIALISM AND INDIVIDUALISM. CONTENTS: (1) The Difficulties of Individualism, by Sidney Webb. (2) The Moral Aspects of Socialism, by Sidney Ball. (3) The Impossibilities of Anarchism, by G. Bernard Shaw. (4) Public Service *versus* Private Expenditure, by Sir Oliver Lodge.

IV. THE BASIS AND POLICY OF SOCIALISM. CONTENTS: (1) Facts for Socialists, by the Fabian Society. (2) Capital and Land, by the Fabian Society. (3) Socialism: True and False, by Sidney Webb. (4) Twentieth Century Politics, by Sidney Webb.

V. THE COMMONSENSE OF MUNICIPAL TRADING. By G. Bernard Shaw. With a new Preface.

VI. SOCIALISM AND NATIONAL MINIMUM. By Mrs. Sidney Webb and others. (*Nearly ready.*)

VII. WASTAGE OF CHILD LIFE. By J. Johnstone, M.D. (*Nearly ready.*)

---

BALLADS AND LYRICS OF SOCIALISM. By E. Nesbit. 6d. net and 1s. net (postages 1d. and 2d.).

"These two lyrics alone ('Inasmuch as ye did it not' and 'In Trouble') raise E. Nesbit higher than all the excellent fiction she has written; they leave the reader angry and ashamed, with his humanity painfully stirred, and his self-satisfaction in rags. For rhe rest, there are . . . many appeals to freedom . . . fine hopeless-hopeful fighting songs . . . poignant little sketches of individual types . . . and poems of sheer revolt."—*Morning Leader.*

---

LONDON:

**THE FABIAN SOCIETY, 3 CLEMENT'S INN, STRAND, W.C.**

FABIAN SOCIETY.—The Fabian Society consists of Socialists. A statement of its Rules and the following publications can be obtained from the Secretary, at the Fabian Office, 3 Clement's Inn, London, W.C.

THIS MISERY OF BOOTS. By H. G. WELLS. 3d., post free 4d.

"THOSE WRETCHED RATES!" a Dialogue. By F. W. HAYES. 1d.

TRACT INDEX AND CATALOGUE RAISONNÉ. 3d.

FABIAN ESSAYS IN SOCIALISM. New Preface by BERNARD SHAW Paper 6d. net; cloth 1/6; postage 2½d. and 4d.

## FABIAN TRACTS and LEAFLETS.

*Tracts, each 16 to 52 pp., price 1d., or 9d. per doz., unless otherwise stated. Leaflets, 4 pp. each, price 1d. for six copies, 1s. per 100, or 8/6 per 1000.*

**The Set of 78, 3s.; post free 3/5. Bound in Buckram, 4/6 net; post free 5s.**

### I.—General Socialism in its various aspects.

TRACTS.—142. Rent and Value. 139. Socialism and the Churches. By Rev. JOHN CLIFFORD, D.D. 138. Municipal Trading. 121. Public Service versus Private Expenditure. By Sir OLIVER LODGE. 113. Communism. By WM. MORRIS. 107. Socialism for Millionaires. By BERNARD SHAW. 133. Socialism and Christianity. By Rev. PERCY DEARMER. 78. Socialism and the Teaching of Christ. By Dr. JOHN CLIFFORD. 42. Christian Socialism. By Rev. S. D. HEADLAM. 79. A Word of Remembrance and Caution to the Rich. By JOHN WOOLMAN. 75. Labor in the Longest Reign. By SIDNEY WEBB. 72. The Moral Aspects of Socialism. By SIDNEY BALL. 69. Difficulties of Individualism. By SIDNEY WEBB. 51. Socialism: True and False. By S. WEBB. 45. The Impossibilities of Anarchism. By BERNARD SHAW (price 2d.). 15. English Progress towards Social Democracy. By S. WEBB. 7. Capital and Land (7th edn. revised 1908). 5. Facts for Socialists (11th ed., revised 1908). LEAFLETS—13. What Socialism Is. 1. Why are the Many Poor? WELSH TRACTS—143. Sosialaeth yng Ngoleuni'r Beibl. Gan J. R. JONES (Caernarfon). 141. Translation of 139. 87. Translation of 78. 38. Translation of 1.

### II.—Applications of Socialism to Particular Problems.

TRACTS.—140. Child Labor under Capitalism. By Mrs. HYLTON DALE. 136. The Village and the Landlord. By EDWARD CARPENTER. 135. Paupers and Old Age Pensions. By SIDNEY WEBB. 131. The Decline in the Birth-Rate. By SIDNEY WEBB. 130. Home Work and Sweating. By Miss B. L. HUTCHINS. 128. The Case for a Legal Minimum Wage. 126. The Abolition of Poor Law Guardians. 122. Municipal Milk and Public Health. By Dr. F. LAWSON DODD. 120. "After Bread, Education." 125. Municipalization by Provinces. 119. Public Control of Electrical Power and Transit. 123. The Revival of Agriculture. 118. The Secret of Rural Depopulation. 115. State Aid to Agriculture: an Example. 112. Life in the Laundry. 98. State Railways for Ireland. 124. State Control of Trusts. 86. Municipal Drink Traffic. 85. Liquor Licensing at Home and Abroad. 84. Economics of Direct Employment. 83. State Arbitration and the Living Wage. 48. Eight Hours by Law. 23. Case for an Eight Hours Bill. LEAFLET.—104. How Trade Unions benefit Workmen.

### III.—Local Government Powers: How to use them.

TRACTS.—137. Parish Councils and Village Life. 109. Cottage Plans and Common Sense. By RAYMOND UNWIN. 76. Houses for the People. 99. Local Government in Ireland. 82. Workmen's Compensation Act. New edition for the Act of 1906. 62. Parish and District Councils. 54. The Humanizing of the Poor Law. By J. F. OAKESHOTT. LEAFLETS.—134. Small Holdings, Allotments and Common Pastures: and how to get them. FABIAN MUNICIPAL PROGRAM, FIRST SERIES (Nos. 32, 37). Municipalization of the Gas Supply. A Labor Policy for Public Authorities. SECOND SERIES (Nos. 90 to 97). Municipalization of Milk Supply. Municipal Pawnshops. Municipal Slaughterhouses. Women as Councillors. Municipal Bakeries. Municipal Hospitals. Municipal Steamboats.—Second Series in a red cover for 1d. (9d. per doz.); separate leaflets, 1/- per 100.

### IV.—Books.

132. A Guide to Books for Socialists. 29. What to Read on social and economic subjects. 6d. net. 129. More Books to Read. Supplement to October, 1906.

### V.—General Politics and Fabian Policy.

127. Socialism and Labor Policy. 116. Fabianism and the Fiscal Question: an alternative policy. 108. Twentieth Century Politics. By SIDNEY WEBB. 70. Report on Fabian Policy. 41. The Fabian Society its Early History. By BERNARD SHAW.

### VI.—Question Leaflets.

Questions for Candidates: 20, Poor Law Guardians. 28, County Councils, Rural. 102, Metropolitan Borough Councils.